# Adroddiad data gollyngiadau gorlifoedd storm – 2024

## Cyflwyniad

Dyma ein trydydd adroddiad blynyddol ar ollyngiadau gorlifoedd storm. Gallwch ddod o hyd i adroddiadau blaenorol ar gyfer 2022 a 2023 yma: [Cyfoeth Naturiol Cymru / Adroddiadau data gollyngiadau gorlifoedd stormydd]

Y ddau gwmni dŵr sy'n gweithredu yng Nghymru yw Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy. Mae gan Dŵr Cymru orlifoedd storm yn Lloegr hefyd, ond nid yw gollyngiadau o'r safleoedd hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru, Ofwat, Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy ar Dasglu Gwella Ansawdd Afonydd Cymru. Gyda'n gilydd, rydym yn datblygu cynlluniau i gynyddu gwaith monitro, casglu gwell tystiolaeth, a thynhau ein rheolaeth reoleiddiol dros orlifoedd storm.

Fel rhan o gynlluniau gweithredu a map trywydd y tasglu ar gyfer gorlifoedd storm, rydym yn cyhoeddi'r adroddiad hwn er mwyn rhannu data am ollyngiadau a ddarparwyd gan y cwmnïau dŵr ac a adolygwyd gennym ni. Rydym yn gwybod bod pobl ledled Cymru yn pryderu am nifer y gollyngiadau a'r effaith bosibl ar ein hafonydd a'n harfordiroedd. Ein nod yw gwella tryloywder, hysbysu'r cyhoedd a rhanddeiliaid, a llywio perfformiad gwell gan gwmnïau dŵr, trwy ein gwaith cydymffurfio a gorfodi.

[Gweler cynlluniau gweithredu'r tasglu ar wefan Llywodraeth Cymru]

## Dyfeisiau monitro hyd digwyddiad

Mae dros 2,000 o orlifoedd storm a ganiateir ledled Cymru. Cynlluniwyd y systemau hyn i leddfu pwysau yn ystod cyfnodau o law trwm pan nad yw'r rhwydwaith carthffosydd yn gallu ymdopi. Mae angen trwydded gennym ni ar gyfer pob gorlif storm i ollwng yn gyfreithlon i'r amgylchedd. Mae'r trwyddedau yn cynnwys amodau i warchod afonydd, nentydd a dyfroedd arfordirol.

Ni oedd y rheoleiddiwr amgylcheddol cyntaf yn y DU i'w gwneud yn ofynnol i gwmnïau dŵr osod dyfeisiau monitro hyd digwyddiad (EDMs) ar bob gorlif storm yng Nghymru. Mae'r dyfeisiau monitro hyn yn mesur pa mor aml y mae pob gorlif yn gollwng ac am ba mor hir. Roedd y mwyafrif o'r dyfeisiau monitro hyd digwyddiad wedi'u gosod erbyn 2020, a bellach mae dros 99% o'r gorlifoedd a ganiateir yn cael eu monitro. Mewn rhai achosion prin, rydym wedi cytuno nad oes angen dyfeisiau monitro hyd digwyddiad oherwydd cyfyngiadau technegol y safle. Mae gan Dŵr Cymru hefyd nifer fechan o ddyfeisiau monitro sydd eto i'w

gosod.

Rhaid i gwmnïau dŵr gyflwyno data dyfeisiau monitro hyd digwyddiad i ni yn flynyddol erbyn diwedd mis Chwefror. Mae'r data hwn yn ein helpu i asesu cydymffurfedd a nodi meysydd i'w gwella. Maent hefyd yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ar eu gwefannau.

Gweler tudalen we data dyfeisiau monitro hyd digwyddiad Dŵr Cymru

Gweler tudalen we data dyfeisiau monitro hyd digwyddiad Hafren Dyfrdwy

Fel rhan o ymrwymiad y tasglu i fod yn dryloyw, lansiodd Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy fapiau gorlifoedd storm amser lled real yn 2024. Mae'r offer rhyngweithiol hyn yn defnyddio data dyfeisiau monitro hyd digwyddiad i ddangos gweithgarwch cyfredol gorlifoedd. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth gyfredol i'r cyhoedd a rhanddeiliaid ac yn eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch ansawdd dŵr yn eu hardal.

Gweler map gorlifoedd storm Dŵr Cymru

Gweler map gorlifoedd storm Hafren Dyfrdwy

## Ansawdd data

Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i gyflwyniadau data dyfeisiau monitro hyd digwyddiad fod yn amserol ac yn gyflawn ac wedi'u hategu gan ddata cywir, cyson a dibynadwy. Mae data o ansawdd uchel yn hanfodol er mwyn sicrhau tryloywder, er mwyn cydymffurfio â rheoliadau ac er mwyn diogelu'r amgylchedd.

Yn dilyn cyflwyniad data Dŵr Cymru yn 2024, nodwyd problemau o ran dilysu data, a arweiniodd at ailgyflwyniad cywir. Cytunwyd i dderbyn yr ailgyflwyniad y tro hwn er mwyn gweithio gyda'r wybodaeth fwyaf cywir, ond rydym wedi ei gwneud yn glir bod rhaid i ansawdd eu data a'u prosesau dilysu wella. Rydym yn dilyn trywydd eu cydymffurfedd cyn penderfynu ar ein hymateb rheoleiddiol.

Rydym hefyd yn disgwyl i Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy wella eu perfformiad yn erbyn y targed amser gweithredu o 90% ar gyfer dyfeisiau monitro hyd digwyddiad, sef y safon ofynnol y cytunwyd arni ar draws y diwydiant.

### Yr hyn y mae data dyfeisiau monitro hyd digwyddiad yn ei ddweud wrthym

Mae data dyfeisiau monitro hyd digwyddiad yn ein helpu i nodi gorlifoedd storm sy'n gollwng yn rhy aml neu am gyfnodau hir. Mae hyn yn ein caniatáu i ganolbwyntio ar yr ardal lle mae'r risg amgylcheddol fwyaf a chymryd camau gweithredu lle bo angen.

Mae data'r dyfeisiau monitro hyd digwyddiad hefyd yn bwydo i mewn i'n gwaith adrodd blynyddol ar berfformiad amgylcheddol ar gyfer Dŵr Cymru a Dyfrdwy Hafren. Mae'r adroddiadau hyn yn cwmpasu perfformiad ehangach y cwmnïau dŵr. Bydd adroddiad 2024 yn cael ei gyhoeddi yn nhymor yr hydref 2025. Unwaith y byddant ar gael, bydd yr adroddiadau i'w gweld yma:

Gweler adroddiadau perfformiad amgylcheddol blynyddol Dŵr Cymru

Gweler adroddiadau perfformiad amgylcheddol blynyddol Hafren Dyfrdwy

## Canfyddiadau o'r data o 2024

Mae'r tablau isod yn dangos data cryno'r dyfeisiau monitro hyd digwyddiad o 2022 i 2024 ar gyfer gorlifoedd storm a ganiateir gydag amodau dyfeisiau monitro hyd digwyddiad, a gyflwynwyd gan Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy.

| Penawdau dyfeisiau monitro hyd digwyddiad Dŵr Cymru | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y gorlifoedd storm a restrir yn y datganiad blynyddol | 1,946 | 1,982 | 2,064 |
| Cyfanswm nifer y gorlifoedd storm gyda dyfeisiau monitro hyd digwyddiad wedi'u comisiynu | 1,942 | 1,975 | 2,060 |
| Canran y gorlifoedd storm a restrir gyda dyfeisiau monitro hyd digwyddiad wedi'u comisiynu | 99.8% | 99.6% | 99.8% |
| Cyfanswm nifer y gorlifoedd storm gyda data ynghylch gollyngiadau | 1,886 | 1,916 | 2,051 |
| Nifer cyfartalog y gollyngiadau fesul gorlif storm sydd â data ynghylch gollyngiadau | 40.9 | 55.3 | 48.9 |
| Hyd cyfartalog (oriau) fesul digwyddiad gollwng a fonitrwyd | 7.1 | 8.6 | 8.2 |
| Canran y gorlifoedd storm a ollyngwyd ddeg gwaith neu lai | 34.6% | 26.9% | 28.4% |
| Canran y gorlifoedd storm a restrir gyda dyfais monitro hyd digwyddiad ar waith am o leiaf 90% o'r amser | 84.9% | 86.1% | 86.5% |

- Cynyddodd nifer gorlifoedd storm a ganiateir Dŵr Cymru o 1,946 yn 2022 i 2,064 yn 2024, yn bennaf oherwydd newidiadau i drwyddedau sy'n cydgrynhoi gweithgareddau storm â mathau eraill o ollyngiadau, felly mae rhai gollyngiadau'n ymddangos ar y ffurflen ddwywaith ac yn adrodd am y gollyngiadau yn erbyn y drwydded a oedd mewn grym ar gyfer y cyfnod hwnnw yn 2024.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

- Mae dyfeisiau monitro hyd digwyddiad wedi'u gosod ym mron pob gorlif storm bellach, yn gyson ar oddeutu 99.8%.
- Cynyddodd y gorlifoedd sydd â data ynghylch gollyngiadau o 1,886 yn 2022 i 2,051 yn 2024.
- Cyrhaeddodd y gollyngiadau cyfartalog fesul gorlif uchafswm o 55.3 yn 2023, gan ostwng i 48.9 yn 2024, sydd dal yn uwch na lefelau 2022 (40.9).
- Cynyddodd hyd y gollyngiadau o 7.1 awr yn 2022 i 8.2 awr yn 2024, ar ôl cyrraedd uchafswm o 8.6 awr yn 2023.
- Gollyngodd llai o orlifoedd ddeg gwaith neu lai yn 2024 o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.
- Gwelwyd gwelliant bach yn amser gweithredu dyfeisiau monitro hyd digwyddiad, gydag 86.5% yn gweithredu o leiaf 90% o'r amser yn 2024, sef cynnydd o 84.9% yn 2022. Cyflwynwyd adroddiadau asesu cydymffurfedd i'r rhai a oedd yn is na 90%, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gynnal ymchwiliadau a chymryd camau unioni, ac rydym yn monitro'u cynnydd ar hyn o bryd.

| Penawdau dyfeisiau monitro hyd digwyddiad Hafren Dyfrdwy | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y gorlifoedd storm a restrir yn y datganiad blynyddol | 49 | 49 | 50 |
| Cyfanswm nifer y gorlifoedd storm gyda dyfeisiau monitro hyd digwyddiad wedi'u comisiynu | 49 | 49 | 50 |
| Canran y gorlifoedd storm a restrir gyda dyfeisiau monitro hyd digwyddiad wedi'u comisiynu | 100% | 100% | 100% |
| Cyfanswm nifer y gorlifoedd storm gyda data ynghylch gollyngiadau | 49 | 49 | 50 |
| Nifer cyfartalog y gollyngiadau fesul gorlif storm sydd â data ynghylch gollyngiadau | 29.0 | 38.8 | 36.2 |
| Hyd cyfartalog (oriau) fesul digwyddiad gollwng a fonitrwyd | 7.5 | 8.5 | 9.4 |
| Canran y gorlifoedd storm a ollyngwyd ddeg gwaith neu lai | 36.7% | 22.4% | 22.0% |
| Canran y gorlifoedd storm a restrir gyda dyfais monitro hyd digwyddiad ar waith am o leiaf 90% o'r amser | 73.5% | 83.7% | 80.0% |

- Parhaodd nifer gorlifoedd storm a ganiateir Hafren Dyfrdwy yn sefydlog.
- Mae dyfeisiau monitro hyd digwyddiad ar waith ym mhob gorlif storm, gan gynnal cwmpas o 100% dros y tair blynedd.

- Cynyddodd gollyngiadau cyfartalog fesul gorlif o 29.0 yn 2022 i 38.8 yn 2023, cyn gostwng ychydig i 36.2 yn 2024.
- Cododd hyd cyfartalog pob gollyngiad yn gyson o 7.5 awr yn 2022 i 9.4 awr yn 2024.
- Gollyngodd llai o orlifoedd ddeg gwaith neu lai yn 2024 o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.
- Gwelwyd gwelliant bach yn amser gweithredu dyfeisiau monitro hyd digwyddiad o 73.5% yn weithredol o leiaf 90% o'r amser yn 2022 i 83.7% yn 2023, cyn gostwng ychydig i 80.0% yn 2024. Cyflwynwyd adroddiadau asesu cydymffurfedd i'r rhai a oedd yn is na 90%, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gynnal ymchwiliadau a chymryd camau unioni, ac rydym yn monitro'u cynnydd ar hyn o bryd.

Edrychom hefyd ar ba mor aml yr oedd gorlifoedd storm a ganiateir ar gyfer Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy yn gollwng gyda'i gilydd. Mae'r data'n dangos:

| Canran y gorlifoedd storm a ganiateir yng Nghymru a ollyngodd: | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|
| 0 gwaith | 12% (247) | 8% (162) | 7% (156) |
| rhwng un a naw o weithiau | 21% (416) | 18% (371) | 19% (409) |
| rhwng deg a 39 o weithiau | 26% (517) | 25% (503) | 28% (587) |
| rhwng 40 a 99 o weithiau | 27% (538) | 27% (540) | 30% (639) |
| rhwng 100 a 299 o weithiau | 10% (202) | 19% (382) | 15% (308) |
| mwy na 300 o weithiau | Llai nag 1% (5) | Llai nag 1% (8) | Llai nag 1% (2) |
| Anhysbys – dim data wedi'i ddarparu | 4% (70) | 3% (65) | 1% (19) |

- Mae llai o orlifoedd storm nad ydynt yn gollwng, gyda mwy yn gollwng rhwng 10 a 99 o weithiau, tra bod nifer y rhai sy'n gollwng dros 100 gwaith wedi gostwng yn 2024 ar ôl codi yn 2023.
- Er bod cyfanswm y glawiad wedi amrywio yn ystod 2022, 2023 a 2024, mae cyfreithlondeb gollyngiad o orlif storm yn dibynnu ar ddwyster a hyd y digwyddiadau glaw unigol yn nalgylch y gorlif storm, nid cyfanswm y glawiad yn unig.
- Rydym wedi tynhau'r diffiniad ar gyfer gollyngiadau cyfreithlon, ac mae cwmnïau dŵr yn datblygu dulliau gan ddefnyddio data glawiad a dyfeisiau monitro hyd digwyddiad i

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

ganfod diffyg cydymffurfedd posibl. Byddwn yn adolygu ac yn archwilio'r dulliau hyn i sicrhau eu bod yn bodloni ein disgwyliadau rheoleiddiol.

## Ein camau rheoleiddiol ar orlifoedd storm

Rydym yn cymryd camau cadarn wedi'u targedu i reoleiddio gorlifoedd storm a lleihau eu heffaith ar afonydd ac arfordiroedd Cymru.

Ym mis Hydref 2023, cyflwynom ganllawiau wedi'u diweddaru i gwmnïau dŵr ar sut i ddosbarthu gorlifoedd storm a sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau gofynnol. Yn seiliedig ar hyn, bydd Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy yn cynnal asesiadau rhwng 2025 a 2030 i helpu i flaenoriaethu gwelliannau. Mae cyllid hefyd wedi'i ddyrannu i'r ddau gwmni er mwyn gwella perfformiad dros 140 o asedau erbyn 2030, gan ddechrau gyda'r rhai sy'n achosi'r niwed mwyaf.

Rydym hefyd yn cryfhau ein dull rheoleiddio ein hunain, gan ganolbwyntio ar ymyriadau effaith uchel. Mae ein blaenoriaethau'n cynnwys:

- Canllawiau cryfach

  Rydym wedi egluro diffiniadau allweddol, megis yr hyn a ystyrir yn "ddigwyddiad glaw trwm" neu "ollyngiad diwrnod sych", er mwyn tynhau rheolaeth reoleiddiol a chefnogi gwaith gorfodi.

- Mwy o wiriadau cydymffurfio

  Rydym yn cynyddu ein gweithgarwch rheoleiddio yn flynyddol ar draws pob trwydded rhyddhau dŵr, gan ganolbwyntio ar safleoedd sy'n peri'r risg fwyaf i'r amgylchedd.

- Archwilio gwell

  Yn 2025/26, byddwn yn cynnal archwiliadau o asesiadau monitro gweithredwyr ac yn ffurfioli ein dull o archwilio sut mae cwmnïau dŵr yn rheoli ac yn adrodd ar ddata dyfeisiau monitro hyd digwyddiad.

- Dadansoddi data yn well

  Rydym yn gwella ein hoffer i wirio cywirdeb a chyflawnrwydd ffurflenni rheoleiddio, er mwyn ein helpu i weithredu ar y data yn fwy effeithiol.

- Addysg gyhoeddus

  Gan weithio gyda phartneriaid y tasglu, bydd y gwaith o siarad â'r cyhoedd a chodi eu hymwybyddiaeth ynghylch camddefnyddio carthffosydd a'r hyn y gallant ei wneud i helpu yn parhau.

- Metrigau perfformiad newydd

  O 2026 ymlaen, bydd metrigau asesu perfformiad amgylcheddol newydd yn sicrhau gwaith craffu gwell ar ddata dyfeisiau monitro hyd digwyddiad. Wedi'u datblygu gydag Ofwat ac Asiantaeth yr Amgylchedd, eu nod yw sicrhau bod cwmnïau dŵr yn cyflawni amser gweithredu o 90% ar draws pob dyfais monitro hyd digwyddiad.

- Deddfwriaeth newydd

  Mae'r Ddeddf Dŵr (Mesurau Arbennig), a ddaeth i rym ym mis Chwefror 2025, yn cryfhau ein pwerau i ddwyn cwmnïau dŵr sy'n methu i gyfrif. Mae'n cyflwyno cynlluniau lleihau digwyddiadau llygredd, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau dŵr amlinellu sut y byddant yn lleihau llygredd, gan gynnwys llygredd o orlifoedd storm. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau ddiwedd 2025, a rhaid i gwmnïau dŵr fod wedi rhoi cynlluniau lleihau digwyddiadau llygredd ar waith erbyn mis Ebrill 2026. Bydd y cynlluniau hyn yn gosod targedau cyflawni gwelliannau blynyddol ar eu cyfer.

DIWEDD